

PAPUR CYNGOR ADNEWYDDU'R ECONOMI

Ffyrdd i Gyngor Adnewyddu'r Economi Weithio yn y Dyfodol – Fframwaith Economaidd a strwythur y Cyngor

DIBEN Y PAPUR HWN

1. Diben y papur hwn yw trafod a chytuno ar ffyrdd i'r Cyngor weithio yn y dyfodol, sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r Fframwaith Economaidd, a'r dewisiadau ynghylch strwythur a ffurf y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

FFRAMWAITH ECONOMAIDD

2. Yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref 2013, gofynnwyd i'r Aelodau gyfleu eu safbwyntiau ynghylch datblygiad Fframwaith y byddai modd i'r Cyngor ei ddefnyddio fel offeryn i dywys ei waith. Er na fyddai'n Strategaeth Economaidd newydd fel y cyfryw, byddai'n cynnig mwy o ddealltwriaeth o bolisiâu a chamau gweithredu er mwyn annog swyddi a thwf o fewn economi Cymru.
3. Cynhaliwyd gweithdy gydag Aelodau'r Cyngor i ddatblygu'r Fframwaith drafft, a gyflwynwyd yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror. Gofynnwyd i'r aelodau gyfleu eu sylwadau ysgrifenedig am y Fframwaith drafft cyn pen 21 niwrnod. Yn dilyn cais gan y Partneriaid Cymdeithasol, estynnwyd y terfyn amser i 39 diwrnod. Mae ystod eang y safbwyntiau a'r mewnbynnau a gafwyd yn golygu na chaiff cyfraniadau eu hadlewyrchu'n llawn yn y ddogfen derfynol efallai. Fodd bynnag, ymdrechwyd i wneud hynny, a dosbarthwyd y ddogfen derfynol gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.
4. Ni cheir consensws llawn o hyd ynghylch yr hyn y mae'r partneriaid yn dymuno'i gael gan y Fframwaith. Fodd bynnag, rhennir y farn y dylai'r Fframwaith hysbysu a thywys gwaith y Cyngor. Felly, cynigir y bydd yn tywys agendâu cyfarfodydd y Cyngor, gan ystyried y tair thema yn eu tro sef Busnes, Pobl a Lle, a datblygu pynciau a materion penodol o fewn y themâu hyn.
5. Yn ogystal, cynigir y bydd y Fframwaith cyfan yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor bob blwyddyn i asesu cynnydd a datblygiadau, ac y bydd yn cyd-fynd â diweddariadau am y Rhaglen Lywodraethu a gweithgarwch adrodd am y Cynllun Busnes.
6. Caiff y Fframwaith ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau economaidd arwyddocaol, polisi, pwerau sy'n datblygu neu ysgogiadau eraill i sicrhau ymagwedd hyblyg a chytbwys. Rhoddir ystyriaeth bellach i sylwadau gan rai partneriaid cymdeithasol o ran datblygu a dadansoddi'r camau gweithredu a'r dangosyddion ymhellach.

I'w Ystyried gan y Cyngor

- A. Gofynnir i Aelodau'r Cyngor nodi dogfen y Fframwaith Economaidd, gan gydnabod y bydd yn cael ei diweddarau i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid neu ddatblygiadau arwyddocaol.**

B. A yw Aelodau'r Cyngor yn fodlon gyda'r cynnig a nodir uchod ynghylch sut fydd y Fframwaith yn tywys gwaith y Cyngor?

DULLIAU O WEITHIO

7. O fewn y sylwadau a gafwyd ynghylch y Fframwaith, roedd nifer yn sôn am ddulliau o weithio, yn hytrach na chynnwys polisi'r Fframwaith ei hun. Yn dilyn trafodaeth yn y Gweithgor, cyflwynwyd y sylwadau hyn isod. Yn ogystal, gofynnodd y Prif Weinidog i Bartneriaid Cymdeithasol nodi eu safbwyntiau ynghylch strwythur y Cyngor yn y dyfodol. Cyfunwyd y safbwyntiau hyn gyda rhai eraill a gafwyd, a chyflwynir y rhain isod hefyd i'w hystyried.
8. Ni wnaeth rhai aelodau fynegi'r angen am newidiadau radical, ac mae eraill wedi cyfeirio'n benodol at faterion y byddent yn dymuno iddynt gael sylw. O blith y rhain, ceir rhai materion y mae'n ymddangos y gallai consensws digonol fodoli yn eu cylch er mwyn eu cyflwyno gerbron y Cyngor. Mewn rhai meysydd eraill, ceir llai o eglurder neu gytundeb, a byddai o fudd trafod y materion hynny ymhellach.
9. Rhoddwyd crynodeb o'r sylwadau yn seiliedig ar y categorïau canlynol:
 - Aelodaeth (mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o'r aelodau presennol)
 - Gweithgor
 - Ffurf Cyfarfodydd y Cyngor
 - Swyddogaeth / rôl / dulliau o weithio fel Llywodraeth gyfan.

Aelodaeth

10. Ceir dwy set o sylwadau ynghylch aelodaeth. Mae'r gyntaf yn ymwneud â nifer y sefydliadau a gynrychiolir ac mae'r ail yn ymwneud â nifer y rhai sy'n mynychu o bob sefydliad.
11. Fel cefndir, mae'r Cynllun Busnes yn nodi y dylai fod "dau gynrychiolydd o'r rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol ac o leiaf bum cynrychiolydd yn cael eu penodi o Fusnes Cymru (*Commerce Cymru bellach*) a TUC Cymru". Ar hyn o bryd, mae un sefydliad menter gymdeithasol yn mynychu, 17 o sefydliadau busnes a phum cynrychiolydd Undebau Llafur.
12. Ar ôl gofyn am safbwyntiau, cafwyd wyth ymateb o blith cyfanswm yr ymatebion posibl, ac roeddent yn datgelu safbwyntiau gwahanol iawn ynghylch aelodaeth. Mae dros hanner yr ymatebion yn nodi mewn ffordd eglur bod nerth a gwerth yng nghynrychiolaeth y sefydliadau busnes amrywiol ar draws Cymru. Mae'r manteision yn cynnwys partneriaeth ehangach sy'n gynhwysol ac sy'n caniatáu i bawb gael llais, a'r cyfle i gynrychioli eu haelodaeth gyda Gweinidogion. I rai, y Cyngor yw'r prif fforwm i ymgysylltu gyda Gweinidogion. Yn ogystal, pwysleisiwyd bod aelodaeth eang yn golygu os ceir cytundeb ar faterion, y gall fod yn bwerus wrth ddylanwadu ar Lywodraeth y DU ac eraill.
13. Fodd bynnag, mynegwyd safbwyntiau'r un mor gryf gan eraill bod maint yr aelodaeth yn cyfyngu ar gyfraniadau effeithiol yn ystod cyfarfodydd y Cyngor, ac

y byddai Cyngor llai o faint yn galluogi dadlau a thrafodaethau a fyddai'n cynnwys mwy o ffocws. Yn ogystal, teimlwyd bod gan rai sefydliadau ddiddordebau penodol i'w haelodaeth, ac nad oeddent yn cyfrannu cymaint ag aelodau eraill i faterion ehangach.

14. Ar sail yr ymatebion a gafwyd, mae'n amlwg bod safbwyntiau gwahanol yn bodoli ynghylch aelodaeth y Cyngor. O gyfuno hyn gyda'r ffaith na wnaeth unrhyw rai o'r rhai a gynrychiolir ar y Cyngor fynegi unrhyw farn, nid yw'n ymddangos bod mandad amlwg yn dod o Aelodau'r Cyngor.
15. Fodd bynnag, gallai safbwyntiau ynghylch ffyrdd gwell o weithio o fewn strwythur y Cyngor o ran ffurf, swyddogaeth a rôl roi sylw i rai o'r materion a godir gan y rhai sy'n ceisio newid, ac efallai y dylid ystyried y rhain cyn newid yr aelodaeth?
16. Yr ail fater o ran aelodaeth yw nifer y sawl sy'n mynychu o bob sefydliad. Ar hyn o bryd, mae'n arfer bod gan rai o'r sefydliadau busnes ddau gynrychiolydd yng nghyfarfodydd y Cyngor. Nododd nifer mai un cynrychiolydd yn unig fesul sefydliad ddylai fod o gwmpas y bwrdd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor. Er mwyn galluogi cyfraniadau cytbwys gan amrediad o Aelodau'r Cyngor, byddai dychwelid i un yn mynychu o bob sefydliad yn ymddangos yn rhesymol ac yn briodol.

I'w Ystyried gan y Cyngor

- C. A yw Aelodau'r Cyngor yn cytuno ar sail y materion a nodir ym mharagraffau 12-15 y dylai aelodaeth y Cyngor barhau fel y mae ar hyn o bryd?**
- D. A yw aelodau'r Cyngor yn cytuno ar sail paragraff 16 mai dim ond un aelod o bob sefydliad ddylai fynychu cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol?**

Gweithgor

17. Gwnaethpwyd nifer o sylwadau am y Gweithgor. Roedd y rhain yn ymwneud â'i aelodaeth, yn ogystal â'i rôl a'r cyfathrebu gydag Aelodau'r Cyngor ehangach.
18. Mynegwyd materion am y Gweithgor yn flaenorol, er enghraifft, trwy gyfrwng yr adolygiad o'r Cynllun Busnes. Er bod y Gweithgor wedi ei sefydlu gyda Chylch Gorchwyl eglur (gweler y ddogfen atodedig), dros gyfnod o amser ac yn rhannol o ganlyniad i bresenoldeb anghyson, mae ei rôl yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn bennaf erbyn hyn.
19. O ystyried y sylwadau a wnaethpwyd, cynigir y dylid aildrefnu aelodaeth y Gweithgor. Cynigir bod hyn yn cael ei wneud ar gyfer y sefydliadau busnes trwy gyfrwng proses ymgynghorol gyda Commerce Cymru a TUC Cymru, y cynigir y dylent ystyried a chadarnhau eu cynrychiolaeth. Bydd lle ar gyfer cynrychiolydd mentrau cymdeithasol hefyd.

20. Ar ôl ei aildrefnu ac ar ôl ailystyried y cylch gorchwyl, cynigir y dylai'r Gweithgor gyfathrebu gyda holl Aelodau'r Cyngor ynghylch sut y bydd yn gweithredu, a'i fod yn egluro'r broses i ddewis eitemau ar gyfer agendâu'r Cyngor.

I'w Ystyried gan y Cyngor

E. A yw Aelodau'r Cyngor yn cytuno:

- i. **y dylid aildrefnu'r Gweithgor;**
- ii. **yn achos aelodaeth busnes, y dylai Commerce Cymru ymgynghori a chytuno ar hyn;**
- iii. **yn achos TUC Cymru, y dylai gadarnhau ei gynrychiolaeth;**
- iv. **ar ôl iddo gael ei aildrefnu, y dylai'r Gweithgor ailystyried y cylch gorchwyl a chyfleu hyn i Aelodau'r Cyngor?**

Ffurf Cyfarfodydd Cyngor Adnewyddu'r Economi

21. Cafwyd safbwyntiau ynghylch ffurf cyfarfodydd y Cyngor. Roedd y rhain yn amrywiol o ran y materion a godwyd:

- a) Roedd dau ymateb yn teimlo bod amlder cyfarfodydd y Cyngor yn ddigonol, yn unol ag effeithiolrwydd y cyfarfodydd a'r Gweithgor yn trafod cynnydd yn erbyn canlyniadau.
- b) Awgrymodd un y dylid newid ffurf y Cyngor yn gyfan gwbl, gyda Bwrdd Cynghori yn cyfarfod bob chwe mis, a fydd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y Prif Weinidog a phartner cymdeithasol, ac a fydd yn cael ei gynorthwyo gan is-grwpiau ar gyfer meysydd datblygu economaidd strategol a gweithgorau ar gyfer prosiectau penodol.
- c) Mynegwyd y farn gan un y dylai'r holl Aelodau ymgymryd i gyfranogi'n llawn yng nghyfarfodydd y Cyngor.
- d) Awgrymodd dau y dylid cael yr hyblygrwydd i gynnal cyfarfodydd 'eithriadol' o'r Cyngor y tu allan i'r cylch ffurfiol.
- e) Awgrymodd un y dylai'r agenda gynnwys eitem sefydlog ar gyfer materion cyfredol ac roedd rhywfaint o gefnogaeth ymhlith y Partneriaid Cymdeithasol i gael 'amser trafod rhydd' yn ystod holl gyfarfodydd y Cyngor.
- f) Awgrymodd un arall bod agenda'r Cyngor yn canolbwyntio ormod ar ymgynghoriadau yn hytrach na thrafodaethau ehangach am yr economi.

22. Ar sail yr uchod, ac amrediad yr awgrymiadau, cynigir y dylai'r Gweithgor aildrefnir drafod a sicrhau consensws ynghylch ffurf cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.

I'w Ystyried gan y Cyngor

F. A yw Aelodau'r Cyngor yn cytuno y dylai'r Gweithgor aildrefnir

ystyried ffurf cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer y dyfodol?

Swyddogaeth / Rôl

23. Roedd y sylwadau yn y categori hwn yn canolbwyntio yn bennaf ar swyddogaeth a rôl y Cyngor. Y tri maes lle y gwelwyd rhywfaint o gonsensws oedd:

- rôl y Partneriaid Cymdeithasol wrth gydweithio, pan fo hynny'n berthnasol, er mwyn manteisio ar eu cryfderau i gynorthwyo'r Cyngor a Llywodraeth Cymru;
- cyhoeddiadau a / neu gyflwyniadau ar y cyd pan fo hynny'n briodol, fel y dangoswyd gan y datganiad ynghylch Comisiwn Silk; ac
- y dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar ganlyniadau, ac roedd hyn yn ategu'r ymagwedd tuag at y Fframwaith.

24. Roedd safbwyntiau eraill a fynegwyd am y swyddogaeth a'r rôl fel a ganlyn:

- a) y dylai grwpiau eraill megis y Paneli Sector adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor er mwyn galluogi'r Cyngor i ychwanegu gwerth i'r cyngor a roddir i'r Gweinidog. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid cael eglurder ynghylch rôl y grwpiau amrywiol sy'n ymwneud â pholisi a chyflawni;
- b) y dylid gosod unrhyw newidiadau i'r Cyngor yng nghyd-destun unrhyw weithgarwch i ailbennu ffocws Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru;
- c) bod gweithredu argymhellion y Cynllun Busnes yn parhau, gan gydnabod unrhyw newidiadau i strwythur y Cyngor.

25. Mae camau eisoes yn cael eu cymryd ar nifer o'r sylwadau hyn. Gan gymryd y rhain yn eu tro, mae papur yn cael ei baratoi sy'n nodi rôl ac aelodau grwpiau a arweinir gan y sector preifat, a bydd hwn ar gael cyn bo hir. O ran presenoldeb gan neu adroddiadau ynghylch gwaith unrhyw grŵp, gall yr Aelodau ofyn bod hyn yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfodydd y Cyngor. Bydd presenoldeb Gweinidogol yn y Cyngor yn parhau a bydd unrhyw newidiadau i'r Cyngor yn cael eu gosod yng nghyd-destun unrhyw weithgarwch i ailbennu ffocws Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru.

I'w Ystyried gan y Cyngor

- G. A yw Aelodau'r Cyngor yn cytuno y bydd y Partneriaid Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth pan fo modd er mwyn cefnogi amcanion penodol y Cyngor, a phan fo hynny'n briodol, y dylid cyhoeddi datganiadau ar y cyd?**
- H. A yw Aelodau'r Cyngor yn cytuno y dylid defnyddio'r Fframwaith er mwyn ysgogi ymagwedd sy'n canolbwyntio yn fwy ar ganlyniadau a chamau gweithredu tuag at rôl y Cyngor?**

Dulliau o weithio fel Llywodraeth Gyfan

26. Gwnaethpwyd sylwadau ynghylch yr angen am ddull o weithio fel Llywodraeth gyfan ym maes datblygu economaidd, gyda mecanweithiau rheoli mewnol eglur. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen i bob Adran ystyried ei dylanwad ar economi Cymru.
27. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn datgan yn glir bod swyddi a thwf yn brif flaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r angen am a'r ymrwymiad i ymagwedd Llywodraeth gyfan tuag at ddatblygu economaidd wedi ei nodi'n glir. Mae'r Fframwaith yn cyfleu hyn ymhellach. Yn ogystal, a chan ymateb i argymhelliad blaenorol gan bartneriaid cymdeithasol, mae pob Adran o fewn Llywodraeth Cymru yn paratoi adroddiad blynyddol nawr ynghylch sut i weithredu'r Cynllun Busnes yn yr Adran. Mae hyn yn cynnig ffordd i bartneriaid cymdeithasol adolygu gweithgareddau pob Adran yn hyn o beth.

I'w Ystyried gan y Cyngor

- I. **Gofynnir i Aelodau'r Cyngor nodi'r camau a gymerwyd ac sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo ymagwedd Llywodraeth gyfan. Croesawir safbwyntiau Aelodau'r Cyngor ynghylch awgrymiadau pellach i ddatblygu hyn.**

Atodiad 1

Rhestr o sefydliadau a gynrychiolir yng Nghyngor Adnewyddu'r Economi

	Sefydliad
1	ICAEW (Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr)
2	ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig)
3	Siambrau Masnach De Cymru
4	FSB (Ffederasiwn Busnesau Bach)
5	CBI (Cydffederasiwn Diwydiant Prydain) – Cymru
6	IoD (Sefydliad y Cyfarwyddwyr)
7	FPB (Fforwm Busnesau Preifat)
8	HBF (Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi)
9	FMB (Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr)
10	CML (Cyngor Benthycwyr Morgeisi)
11	NFU (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr)
12	RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig)
13	EEF, Sefydliad y Gweithgynhyrchwyr
14	FTA (Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau)
15	RHA (Road Haulage Association)
16	CIM (Sefydliad Marchnata Siartredig)
17	Cymdeithas y Cyfreithwyr
18	Canolfan Cydweithredol Cymru
19-23	TUC Cymru (pum cynrychiolydd)

Atodiad 2

Cylch Gorchwyl Gweithgor Cyngor Adnewyddu'r Economi

Diben

Cryfhau a chynnig sail i weithrediad Cyngor Adnewyddu'r Economi a chynnig y parhad a'r ysgogiad i sicrhau bod Cyngor Adnewyddu'r Economi mor effeithiol ag y gall fod yn ystod ei gyfarfodydd.

Yn fwy penodol:

- Adolygu'r camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd y Cyngor a'u symud yn eu blaen
- Trafod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol
- Sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen pan fo hynny'n briodol
- Rhoi cyngor am a chyfrannu at weithrediad y Cynllun Busnes

Teitl

- Gweithgor Cyngor Adnewyddu'r Economi

Aelodaeth

Un cynrychiolydd o'r:

- Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
- Cadeirydd Busnes Cymru
- CBI
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Siambrau Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- TUC Cymru
- Grŵp Proffesiynau o fewn Busnes Cymru
- Menter Gymdeithasol
- Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru,
- Arweinwyr busnes o Adrannau eraill yn unol â'r agenda.

Amllder

- Chwe gwaith y flwyddyn – cyn ac ar ôl tri Chyfarfod y Cyngor
- Y dewis i gyfarfod yn fwy aml ynghylch materion penodol yn ôl yr angen.

Gweithrediadau cyfarfodydd

- Cadeirir gan swyddogion o Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
- Caiff y trefniadau eu gwneud a'r papurau eu dosbarthu gan Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
- Eitemau / papurau gan Lywodraeth Cymru a Phartneriaid Cymdeithasol